

# Gosod Amcanion Llesiant – Cyngor Sir Penfro

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3697A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru ar [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Saesneg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in English will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

## Cynnwys

Cefndir ein harchwiliadau o osod amcanion llesiant	4
Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Sir Penfro	5
Sut a phryd mae'r Cyngor wedi gosod ei amcanion llesiant	5
Yr hyn a ganfuom: mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd, ond mae angen cryfhau ei drefniadau ar gyfer cynnwys dinasyddion a monitro ei gynnydd	7
Argymhellion	10
Atodiadau	
Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a'r hyn a wnaethom chwilio amdano	11

## Cefndir: ein harchwiliadau o osod amcanion llesiant

- 1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar 48 o gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyrff hynny osod a chyhoeddi 'amcanion llesiant' sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni saith nod llesiant cenedlaethol y Ddeddf.<sup>1</sup> Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.
- 2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i asesu i ba raddau y mae gyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu gynaliadwy wrth osod eu hamcanion llesiant<sup>2</sup>. Rydym yn cynnal rhaglen dreigl o'r archwiliadau hyn, hyd at ddechrau 2025<sup>3</sup>.
- 3 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu gynaliadwy yn golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio, ac atal<sup>4</sup>.
- 4 Gwnaethom lunio fframwaith asesu i'n galluogi i asesu i ba raddau y mae gyrff cyhoeddus wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu gynaliadwy wrth osod eu hamcanion llesiant. Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu, gan gynnwys set o 'ddangosyddion cadarnhaol' sy'n dangos sut olwg allai fod ar da.
- 5 Wrth ddylunio ein dull gweithredu, gwnaethom ystyried yr hyn y gallem ei ddisgwyl yn rhesymol gan gyrff cyhoeddus ar yr adeg hon. Dylai gyrff cyhoeddus nawr fod yn gyfarwydd â'r egwyddor datblygu gynaliadwy a'r ffordd o weithio a cheisio eu cymhwyso mewn ffordd ystyrlon. Ar yr un pryd, rydym yn gwerthfawrogi bod gyrff cyhoeddus yn dal i ddatblygu eu profiad wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu gynaliadwy wrth osod amcanion llesiant. Felly, mae'r archwiliadau'n cynnwys ystyried sut mae gyrff cyhoeddus yn cymhwyso yr hyn y maent wedi'i ddysgu a sut y gallant wella yn y dyfodol.

<sup>1</sup> Y saith nod llesiant cenedlaethol yw; Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynol, Cymru o ddiwylliant bywiog a Chymraeg ffyniannus, a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

<sup>2</sup> Adran 15 (1) (a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

<sup>3</sup> Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau dros y cyfnod a nodir yn y Ddeddf, sy'n dechrau flwyddyn cyn etholiad y Senedd ac sy'n dod i ben flwyddyn ac un diwrnod cyn etholiad y Senedd ganlynol.

<sup>4</sup> Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Sir Penfro

- 6 Nod yr archwiliad hwn oedd:
- esbonio sut y gwnaeth Cyngor Sir Penfro (y Cyngor) gymhwyso'r egwyddor datblygu gynaliadwy drwy gydol y broses o osod ei amcanion llesiant;
  - darparu sicrwydd ar y graddau y gweithredodd y Cyngor yr egwyddor datblygu gynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant; a
  - nodi cyfleoedd i'r Cyngor ymgorffori'r egwyddor datblygu gynaliadwy ymhellach wrth osod amcanion llesiant yn y dyfodol.
- 7 Aethom ati i ateb y cwestiwn, 'i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu gynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd'. Rydym wedi gwneud hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:
- Oedd y broses a roddwyd ar waith gan y Cyngor i osod ei amcanion llesiant wedi'i seilio ar yr egwyddor datblygu gynaliadwy?
  - Ydy'r Cyngor wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu gynaliadwy?
  - Ydy'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu gynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant?
- 8 Buom yn trafod amseriad yr archwiliad gyda'r Cyngor, ac fe wnaethom deilwra'r ddarpariaeth i adlewyrchu ei amgylchiadau penodol. Gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn rhwng mis Chwefror 2023 a mis Mai 2023.
- 9 Fe wnaethom gasglu ein tystiolaeth yn y ffyrdd canlynol::
- adolygu dogfennau allweddol;
  - cynnal gweithdy gyda swyddogion allweddol ac Aelodau a oedd yn ymwneud â gosod yr amcanion llesiant; a
  - cynnal cyfarfod eglurhad terfynol ar faterion sy'n weddill gydag unigolion allweddol yn ogystal â'r uchod.
- 10 Fe wnaethom hefyd roi adborth anffurfiol i swyddogion ar ganfyddiadau allweddol ein gwaith cyn rhannu'r adroddiad.

## Sut a phryd mae'r Cyngor wedi gosod ei amcanion llesiant

- 11 Mabwysiadodd y Cyngor ei Strategaeth Gorfforaethol 2023-2028 ar 11 Mai 2023. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym y bydd y Strategaeth Gorfforaethol, ar ôl ei chyfieithu, yn cael ei chyhoeddi'n ffurfiol ar wefan y Cyngor erbyn diwedd Mehefin 2023.
- 12 Mae'r Strategaeth Gorfforaethol wedi'i strwythuro o amgylch 12 amcan llesiant newydd y Cyngor, naw ohonynt yn wynebu'n allanol (A) a thri ohonynt yn amcanion mewnol/sefydliadol (B). Yr amcanion llesiant newydd yw:

- A1 Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth addysg a dysgu, gan sicrhau bod gan ein dysgwyr y sgiliau a gwybodaeth gydol oes y bydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol.
  - A2 Byddwn yn sicrhau darpariaeth briodol o ofal a chymorth, gan ganolbwyntio ar atal a sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel.
  - A3 Byddwn yn galluogi darparu cartrefi fforddiadwy, sydd ar gael, y gellir eu haddasu ac yn effeithlon o ran ynni.
  - A4 Byddwn yn cyflawni ein huchelgais economaidd trwy gefnogi twf, swyddi a ffyniant ac yn galluogi'r newid i economi fwy cynaliadwy a gwyrddach.
  - A5 Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi mentrau i ddarparu datgarboneiddio, rheoli addasu i'r hinsawdd a mynd i'r afael â'r argyfwng natur.
  - A6 Byddwn yn cefnogi ein cymunedau, gan gynnal perthnasoedd cadarnhaol â nhw i helpu i adeiladu cymunedau gweithredol, dyfeisgar, cysylltiedig, cynaliadwy a chreadigol.
  - A7 Byddwn yn cefnogi'r Gymraeg o fewn cymunedau a thrwy ysgolion.
  - A8 Byddwn yn canolbwyntio adnoddau ar ddarparu gwasanaethau craidd megis priffyrdd, gwastraff ac ailgylchu, diogelu'r cyhoedd a hamdden a diwylliant sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd pob cymuned, gan sicrhau bod preswylwyr yn byw mewn cymdogaethau sy'n lân, yn wyrdd, yn ddiogel ac yn weithgar.
  - A9 Byddwn yn datblygu strategaeth i leihau tlodi ac anghydraddoldeb.
  - B1 Byddwn yn adeiladu diwylliant o lywodraethu da yn y Cyngor i wella ymddiriedaeth a hyder yn ein prosesau gwneud penderfyniadau.
  - B2 Byddwn yn Gyngor ariannol cynaliadwy a chydnerth sy'n rheoli ein hadnoddau a'n hasedau'n effeithiol ac yn effeithlon, er enghraifft trwy adolygu a gwneud y gorau o'n hystad gorfforaethol.
  - B3 Byddwn yn gwella datblygiad ein gweithlu, yn gwella sgiliau a chyfleoedd yn ogystal â mynd i'r afael â materion recriwtio a chadw.
- 13 Mae'r Strategaeth Gorfforaethol hefyd yn cynnwys datganiad llesiant. Mae'r datganiad llesiant hwn yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y Ddeddf, ond gellid ei gryfhau drwy gynnwys darlun cliriach o sut y bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio i gyflawni ei amcanion llesiant.
- 14 Wrth osod ei amcanion llesiant newydd, teimlai'r Cyngor ei fod wedi cymhwyso gwersi a ddysgwyd o osod amcanion llesiant blaenorol. Roedd y gwersi allweddol hyn yn cynnwys:
- sicrhau bod yr amcanion llesiant yn cyd-fynd yn well ag uchelgeisiau'r weinyddiaeth wleidyddol a'i gweledigaeth; a
  - mabwysiadu dull mwy cynhwysol a chydweithredol o ddatblygu ei amcanion llesiant newydd.

## Yr hyn a ganfuom: mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd, ond mae angen cryfhau ei drefniadau ar gyfer cynnwys dinasyddion a monitro ei gynnydd

### Y broses ar gyfer gosod amcanion llesiant

#### Sylfaen Dystiolaeth

- 15 Wrth ddatblygu ei Strategaeth Gorfforaethol, mae'r Cyngor wedi defnyddio tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys y canlynol:
  - Y Rhaglen Weinyddu;
  - Adroddiad Blynyddol a Hunanasesiad 2021-22;
  - Canfyddiadau ac argymhellion craffu;
  - Datganiad Llywodraethu Blynyddol;
  - Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol;
  - Adroddiadau rheoleiddio allanol; ac
  - Aseiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a'r Cynllun o ganlyniad iddo.
- 16 Mae'r ffynonellau tystiolaeth hyn yn cynnwys risgiau ac anghenion tymor byr, canolig a thymor hirach ac fe'u defnyddiwyd i helpu i lunio'r amcanion llesiant ac i danategu'r rhesymeg dros eu dewis.
- 17 Roedd y Cyngor yn rhan o ddull cydweithredol o gasglu a dadansoddi data ar sail ranbarthol ar gyfer yr Aseiad Llesiant BGC. Mae'r wybodaeth a'r ddeallusrwydd hyn, a oedd yn nodi anghenion presennol ac anghenion y dyfodol, wedi cael eu defnyddio gan y Cyngor fel sail i'w hamcanion llesiant. Mae'r dull ranbarthol o ddatblygu'r aseiad llesiant hefyd wedi galluogi nodi risgiau a materion trawsffiniol a'u hadlewyrchu o fewn amcanion llesiant newydd y Cyngor, fel y rhai sy'n ymwneud â'r economi, tai, yr amgylchedd a newid hinsawdd.

#### Ymgynghori a chyfranogi

- 18 Cynhaliodd y Cyngor ymarfer ymgynghori penodol ar ei amcanion llesiant drwy ei wefan o dan ei dudalennau ymgynghori 'Dweud eich dweud'. Fodd bynnag, roedd y gyfradd ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn wael, gyda dim ond 21 o ymatebion. Er bod y Cyngor wedi defnyddio ymgynghoriadau eraill sy'n bodoli'n barod, fel yr un ar ei gynigion cyllideb a'r Cynllun Llesiant BGC, i helpu i lywio ei amcanion llesiant, gallai'r Cyngor wneud mwy i wella sut mae'n defnyddio barn amrywiaeth lawn y boblogaeth wrth lunio a darparu ei amcanion llesiant.

- 19 Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn meddalwedd ymgysylltu a ddylai helpu i sicrhau bod ei ymgysylltiad yn y dyfodol yn fwy helaeth ac yn cwmpasu amrywiaeth lawn y boblogaeth. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud i geisio sicrhau bod y rhai o grwpiau sydd fel arfer yn cael eu tangynrychioli yn gallu cymryd rhan mewn mentrau yn y dyfodol.
- 20 Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn cynnwys sawl enghraifft o sut y bydd unigolion yn rhan bwysig o'r dull o gyflawni'r uchelgeisiau o fewn ei amcanion llesiant. Er enghraifft, mae amcan llesiant A6 sy'n canolbwyntio ar Gymunedau Cynaliadwy, yn nodi y bydd angen iddo fod yn 'Cynnwys cymunedau a dinasyddion yn fwy ystyrlon wrth wneud penderfyniadau lleol' ac amcan llesiant A2 sy'n canolbwyntio ar ofal cymdeithasol yn nodi y bydd yn, 'Parhau i gyd-gynhyrchu gwasanaethau gyda'r trydydd sector fel yr Hwb Cymunedol'. Fodd bynnag, gallai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau drwy fod yn gliriach ar rôl dinasyddion wrth helpu i gyflawni ei amcanion llesiant eraill.

## Cynllunio i wella lles

- 21 Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn cynnwys crynodeb a disgrifiad manylach ar sut mae pob un o'r amcanion llesiant yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae hefyd yn cynnwys disgrifiad mwy cyffredinol o sut mae'r strategaeth gyffredinol wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio o'r Ddeddf.
- 22 Mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod yr uchelgeisiau a'r ymrwymadau gwleidyddol yn cael eu hadlewyrchu yn ei Strategaeth Gorfforaethol newydd. Fodd bynnag, cydnabyddir o fewn y Cyngor ei fod o reidrwydd wedi canolbwyntio ar ymateb i heriau ariannol tymor byr ac y bydd angen iddo barhau i fireinio ymhellach ei bwyslais ar ddarparu llesiant dros y tymor hir.
- 23 Mae amcanion llesiant y Cyngor yn cwmpasu ystod eang o feysydd ac yn canolbwyntio ar uchelgeisiau tymor byr a thymor hwy. Mae yna aliniad da hefyd rhwng amcanion llesiant y Cyngor ac amcanion llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a ddylai helpu i gefnogi'r gwaith o ddarparu llesiant i bobl ac ardal Sir Benfro.
- 24 Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yn cydnabod y bydd angen i'w amcanion llesiant gael eu darparu gyda chefnogaeth partneriaid, a bod y mwyafrif o'r amcanion llesiant yn cynnwys camau/camau gweithredu sydd â phwyslais ar bartneriaeth. Er enghraifft, mae'r amcan llesiant ynghylch tai (A3) yn cynnwys gweithred sy'n nodi y bydd yn, 'Cyflymu'r ddarpariaeth tai yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r ystod o brosiectau tai fforddiadwy gan gynnwys datblygu Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a sicrhau bod lleiniau llai o dir y Cyngor ar gael i'r rhai sy'n chwilio am gyfleoedd hunan-adeiladu.' Er bod cydnabod rôl allweddol partneriaid mewn cydweithrediad yn gadarnhaol, bydd yn bwysig bod Cynlluniau Gwellu Gwasanaethau manylach y Cyngor hefyd yn nodi'n glir sut a phryd y bydd gweithio gyda phartneriaid yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant.



## Cyflawni'r amcanion llesiant

- 25 Mecanwaith allweddol ar gyfer cyflawni amcanion llesiant y Cyngor a'r camau gweithredu a amlinellir yn ei Strategaeth Gorfforaethol yw Cynlluniau Gwella Gwasanaethau'r Cyngor. Dylai diffinio'n glir sut mae'r cynlluniau hyn yn cefnogi'r Gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant roi rhywfaint o sicrwydd i'r Cyngor bod Gwaith a wneir gan ei wasanaethau yn canolbwyntio ar gyflawni ei amcanion llesiant.
- 26 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cynnwys dadansoddiad defnyddiol o'r risgiau adnoddau ariannol tymor hirach hyd at 2040, a fydd yn ddefnyddiol i'w alluogi i flaenoriaethu ei adnoddau dros y tymor hir. Fodd bynnag, gallai'r Cyngor ddarparu naratif cliriach o gwmpas: sut mae'n defnyddio ei adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion llesiant; sut y gallai unrhyw risg adnoddau yn y dyfodol effeithio ar eu cyflawni; a sut mae gosod cyllideb yn cyd-fynd â'i amcanion llesiant.
- 27 Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn amlinellu agweddau ar atal ac mae yna amcan llesiant penodol sy'n canolbwyntio ar atal mewn Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, byddai cael mynegiant clir o sut y bydd ei weithgarwch ataliol yn cefnogi'r gwaith o ddarparu ar draws ei holl amcanion llesiant yn cryfhau trefniadau'r Cyngor.

## Monitro'r amcanion llesiant

- 28 Mae'r broses bresennol ar gyfer monitro cynnydd ar ei amcanion llesiant wedi'i hamlinellu yn y Strategaeth Gorfforaethol ac mae'r elfennau allweddol yn cynnwys:
- monitro ystod o fesurau chwarterol (Cerdyn Sgôr Corfforaethol) gan y Cabinet a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, a chan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol o bryd i'w gilydd;
  - proses hunanasesu flynyddol;
  - Datganiad Llywodraethu Blynyddol; a
  - pwyllgorau trosolwg a chraffu goruchwyllo/adolygu perfformiad.
- 29 Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor, sy'n crynhoi'r gwaith o fonitro ei amcanion llesiant, yn dal i fod ar gam cynnar o ddatblygu ac mae ganddo gyfyngiadau. Un mater allweddol yw bod y gyfres bresennol o ddangosyddion corfforaethol (Cerdyn Sgôr Corfforaethol y Cyngor) wedi'i strwythuro ar sail gwasanaeth ac yn cynnwys mesurau/metrigau traddodiadol sy'n seiliedig ar weithgaredd yn bennaf. Felly, mae'n anodd gweld pa un o'r metrigau hyn fydd yn helpu'r Cyngor i benderfynu ar y cynnydd y mae'n ei wneud yn erbyn ei amcanion llesiant. Enghraifft o hyn yw Hunanasesiad ac Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2020-2021. Mae'r hunanasesiad hwn yn amlinellu'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ar ei amcanion llesiant blaenorol, fodd bynnag, wrth wneud hynny mae'n defnyddio ychydig iawn o'r dangosyddion corfforaethol o'i Gerdyn Sgôr Corfforaethol. Mae angen i Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor nodi sut mae'r Cyngor yn mynd i fesur y cynnydd o ran cyflawni ei amcanion llesiant, ac mae

angen datblygu'r gyfres gorfforaethol o ddangosyddion fel bod y Cyngor yn gallu mesur y manteision a'r canlyniadau ehangach, hirdymor sy'n adlewyrchu natur drawsbynciol ei amcanion llesiant.

- 30 Er bod y Strategaeth Gorfforaethol yn nodi bod y Cyngor yn y broses o ddiweddarau ei Fframwaith Rheoli Perfformiad ac adolygu ei gyfres bresennol o ddangosyddion corfforaethol, mae'r gwaith hwn wedi bod yn mynd rhagddo ers peth amser. Bydd angen i'r Cyngor fwrw ymlaen â gwelliannau i'w Fframwaith Rheoli Perfformiad yn gyflym os yw am gael tystiolaeth amserol a chadarn i osod a dangos ei gynnydd o ran cyflawni ei amcanion llesiant ar gyfer 2023-24 yn effeithiol.
- 31 Nid yw'r Cyngor wedi bod yn adrodd gwybodaeth am berfformiad corfforaethol i'w bwyllgorau trosolwg a chraffu mor aml ag yr oedd wedi'i fwriadu. Y rheswm a roddwyd am hyn oedd oherwydd prinder adnoddau staff. Bydd yn bwysig bod y materion hyn yn cael eu datrys yn gyflym i sicrhau y gall pwyllgorau trosolwg a chraffu cyflawni eu cyfrifoldebau goruchwyllo yn effeithiol a darparu her ar y cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud wrth gyflawni ei amcanion llesiant.

## Argymhellion

- A1 Dylai'r Cyngor gryfhau ei ddull o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod a chyflawni ei amcanion llesiant drwy:
- sicrhau ei bod yn gallu tynnu ar farn amrywiaeth lawn y boblogaeth wrth osod ei hamcanion llesiant yn y dyfodol;
  - nodi'n glir yn ei Gynlluniau Gwella Gwasanaethau sut y bydd gwasanaethau'n cefnogi'r gwaith o weithredu'r amcanion llesiant, gan gynnwys, er enghraifft, sut y bydd gwasanaethau'n gweithio gyda phartneriaid a dinasyddion a sut mae eu gwaith yn cefnogi agenda ataliol;
  - sicrhau, wrth osod cyllideb neu adnewyddu ei gynllun ariannol tymor canolig yn y dyfodol, y bydd cyd-fynd yn glir ag amcanion llesiant newydd y Cyngor, a bod eglurder ynghylch sut y gallai targedau arbedion neu ansicrwydd ariannol hysbys yn y dyfodol effeithio ar gyflawni eu hamcanion llesiant; a
  - sicrhau bod gwelliannau wedi'u cynllunio i'w fframwaith rheoli perfformiad, gan gynnwys mireinio ei gyfres gorfforaethol o ddangosyddion, yn cael eu gwneud ar frys fel bod fframwaith effeithiol ar waith ar gyfer asesu cynnydd ar yr amcanion llesiant.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a'r hyn yr hyn a wnaethom chwilio amdano

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr oeddem yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â rhai is-gwestiynau i arwain ein casglu tystiolaeth. Mae hefyd yn cynnwys rhai 'dangosyddion cadarnhaol' sydd wedi'u teilwra i'r archwiliad hwn, wedi'u haddasu o'r rhai rydym wedi'u defnyddio o'r blaen i lywio ein harchwiliadau egwyddor datblygu gynaliadwy. Nid rhestr wirio yw'r rhestr hon, ond yn hytrach set o nodweddion darluniadol sy'n disgrifio sut beth allai da edrych.

**I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu gynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?**

**Cynllunio: A oedd y broses a roddwyd ar waith gan y corff i osod ei amcanion llesiant wedi'u seilio ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy?**

**A yw'r corff wedi defnyddio data a gwybodaeth arall i ddeall anghenion, risgiau a chyfleoedd a sut y gallent newid dros amser?**

**Dangosyddion positif**

- Mae gan y corff asesiad clir a chytbwys o'r cynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol a ddefnyddiwyd i lywio dealltwriaeth y corff o'r angen 'fel y mae'/tymor byr'.
- Mae'r corff wedi gosod amcanion llesiant yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o angen, risg a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei dynnu o amrywiaeth o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis:
  - asesiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
  - asesiadau poblogaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
  - canlyniadau ymarferion ymgynghori/cyfranogiad lleol
  - gwasanaeth monitro a chwynion
  - adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

	<ul style="list-style-type: none"> <li>– Adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ar gyfer Cymru ac Aseidiadau yn Seiliedig ar Ardaloedd</li> <li>• Mae'r corff wedi ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel y gall fynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau rhwng cenedlaethau trwy ei amcanion llesiant.</li> </ul>
<b>A yw'r corff wedi cynnwys eraill i ddatblygu ei amcanion llesiant?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r corff yn defnyddio canlyniadau cyfranogiad i helpu i ddewis ei amcanion llesiant. Mae'r cyfranogiad hwnnw - boed yn gynradd, eilaidd neu'n gyfuniad - yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.</li> <li>• Mae cyfranogiad yn adlewyrchu arfer da a chynghor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.</li> </ul>
<b>A yw'r corff wedi ystyried sut y gall yr amcanion wella llesiant a chael effaith eang?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i wella llesiant yn yr ystyr ehangaf a gwneud cyfraniad ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol.</li> <li>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i adlewyrchu a manteisio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwaith.</li> <li>• Mae dealltwriaeth ddatblygedig o sut mae'r amcanion llesiant yn effeithio ar, neu'n ymwneud â'r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni a chyfleoedd i weithio gyda'i gilydd.</li> </ul>
<b>A yw'r corff wedi dylunio'r amcanion i sicrhau manteision tymor hir, wedi'u cydbwysu â diwallu anghenion tymor byr?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r corff wedi gosod amcanion sy'n ddigon uchelgeisiol ac sydd wedi'u cynllunio i yrru gweithgaredd ar draws y sefydliad.</li> <li>• Mae'r amcanion wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion tymor byr a thymor hir. Pan osodir amcanion dros amserlen fer i ganolig, fe'u gosodir yng nghyd-destun ystyriaethau neu uchelgeisiau tymor hir.</li> </ul>

**I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?**

**Adnoddau a gweithredu: A yw'r corff wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall weithredu ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?**

**A yw'r corff wedi ystyried sut y gall ddarparu adnoddau i'r amcanion llesiant?**

- Dyrannwyd adnoddau i sicrhau y gellir cyflawni'r amcanion dros y tymor byr a'r tymor canolig, ond mae'r corff hefyd wedi ystyried adnoddau tymor hir, risgiau a/neu sut y gall ddarparu adnoddau amcanion tymor hir.
- Mae'r corff wedi dyrannu adnoddau i sicrhau manteision ataliol, lle disgrifir y rhain yn ei amcanion llesiant..

**A yw'r corff wedi ystyried sut y gall weithio gydag eraill i gyflawni eu hamcanion?**

- Mae'r corff yn defnyddio ei wybodaeth am amcanion/gweithgarwch partneriaid, ei berthnasoedd a'i drefniadau cydweithredol i sicrhau y gall weithredu uchelgeisiau trawsbynciol.

**Monitro ac adolygu: A yw'r corff wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant?**

**A yw'r corff wedi datblygu mesurau priodol a threfniadau monitro?**

- Mae mesurau perfformiad wedi'u cynllunio i adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, e.e. drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau sy'n torri ar draws ffiniau adrannol/sefydliadol ac yn cyflawni amryw o fuddion (gan gynnwys ataliol) dros y tymor hir.
- Mae 'edau aur' a fydd yn caniatáu i'r corff adrodd yn glir ac yn dryloyw ar gynnydd i gyflawni'r amcanion.

**I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?**

**Adnoddau a gweithredu: A yw'r corff wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?**

**A yw'r corff yn ceisio dysgu oddi wrth a gwella sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i osod ei amcanion llesiant?**

- Mae'r corff yn dangos hunanymwybyddiaeth ac ymrwymiad i wella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu gynaliadwy fel y gall wneud hynny mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol.
- Mae'r corff wedi dysgu o osod amcanion llesiant blaenorol a thrwy gymhwyso'r egwyddor datblygu gynaliadwy yn fwy cyffredinol ac mae wedi gwella'r broses ar gyfer gosod ei amcanion llesiant newydd.
- Mae'r corff wedi neu'n bwriadu myfyrio ar sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu gynaliadwy yn y cylch hwn o osod amcanion llesiant.





Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Gwefan: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.